# #BGaGarem

# Pecyn Ysbrydoli

Cam 3: Gorffennaf i Medi 2017




Bwriedir i'r pecyn ysbrydoli hwn i gael ei ddefnyddio gan sefydliadau, busnesau a'r rhai sy'n rhedeg grwpiau, clybiau neu rwydweithiau lleol. Bydd yn eich helpu i gasglu barn pobl yn ystod rhaglen ymgysylltu Y Blaenau Gwent a Garem, gan helpu i wneud Blaenau Gwent yn lle gwell ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Rydym eisoes wedi siarad gyda thros 1,500 o bobl am y Blaenau Gwent a garent. Mae hyn wedi ein helpu i lunio nifer o flaenoriaethau y bydd angen i ni weithio arnynt dros yr ychydig flynyddoedd nesaf er mwyn gwella ein hardal leol.

Rydym yn awr eisiau i bobl ddweud wrthym beth y credant sydd angen i ni ei wneud i ni gyflawni ein blaenoriaethau, ac os gwyddant am unrhyw waith cysylltiedig sydd eisoes yn mynd rhagddo. I wneud hyn rydym angen eich help, felly anogwch gynifer o bobl ag sy'n bosibl i gymryd rhan os gwelwch yn dda.

Y tu mewn fe welwch yr holl wybodaeth y byddwch ei angen i wneud eich gweithgareddau ymgysylltu #BGaGarem, gan helpu i greu'r Blaenau Gwent a garem i gyd!

BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS
Blaenau Gwent
PUBLIC SERVICES BOARD

#BGaGarem

# Mynegai


Pwy ydym ni……......................................................................................................... 3

Am Y Blaenau Gwent a Garem ............................................................................... 3

Y Blaenau Gwent a Garem: Cam 3 …..................................................................... 4

Yr hyn rydym eisiau i chi wneud…......................................................................... 4

Ein Blaenoriaethau/Amcanion Llesiant…................................................................ 5

Ein cwestiynau allweddol ……................................................................................ 5

Cwestiynau opsiynol.............................................................................................. 6

Gwahanol ffyrdd y gall pobl gymryd rhan ............................................................. 6

Sut i fformatio ac anfon adborth ........................................................................... 7

Manylion cyswllt…................................................................................................. 8

Templedi ............................................................................................................... 9




# Pwy ydym ni

Ni yw Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Blaenau Gwent ac rydym yn cynnwys yr holl ddarparwyr gwasanaethau lleol allweddol a mudiadau gwirfoddol ym Mlaenau Gwent yn cynnwys Cyngor Blaenau Gwent, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Coleg Gwent, Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent, Heddlu Gwent a Chymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent (GAVO). Daeth arweinwyr yr holl gyrff ynghyd mewn cyfarfodydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i gydweithio mewn partneriaeth i wella ein gwasanaethau a chyfleusterau llawn.

# Am Y Blaenau Gwent a Garem

Mae'r rhaglen ymgysylltu 'Y Blaenau Gwent a Garem' yn ymwneud â phobl leol, busnesau a sefydliadau yn cael llais ar sut y gallwn wella Blaenau Gwent ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.


Our event at Tredegar Shopping Precinct

Dechreuodd y rhaglen ym mis Awst 2016 ac ers hynny buom yn siarad gyda dros 1,500 o bobl o bob rhan o'r ardal a ddywedodd wrthym yr hyn a gredant sy'n arbennig am Flaenau Gwent a beth fyddai'n ei wneud yn lle gwell. Rydym wedi defnyddio eu hadborth ynghyd â rhai ystadegau lleol allweddol i lunio 'Asesiad Llesiant', sy'n ddogfen sy'n rhoi darlun manwl o sut le yw Blaenau Gwent heddiw; beth sy'n dda am yr ardal ac sydd angen ei gynnal a beth sydd angen ei wella. Gallwch weld Asesiad Llesiant Blaenau Gwent drwy fynd i [www.blaenaugwentpsb.org.uk](http://www.blaenaugwentpsb.org.uk).



# Y Blaenau Gwent a Garem: Cam 3

Mae'r asesiad llesiant wedi rhoi sylw i'r materion yn yr ardal lle mae angen i ni wneud gwelliannau. Er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn, rydym wedi llunio nifer o flaenoriaethau y bwriadwn weithio arnynt dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Gelwir y blaenoriaethau hyn yn Amcanion Llesiant.

Nawr mae angen i ni gasglu barn pobl ar ein Hamcanion Llesiant i ganfod os oes ganddynt unrhyw syniadau am sut y gallwn eu cyflawni neu os gwyddant am unrhyw waith da sydd eisoes yn mynd rhagddo i'w trin. Defnyddir eu hadborth i helpu llunio Cynllun Llesiant ar gyfer Blaenau Gwent, sy'n ddogfen sy'n nodi cyfeiriad gwaith ar gyfer pob corff gwasanaeth cyhoeddus a mudiad gwirfoddol yn yr ardal dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.

Ni allwn sicrhau'r Blaenau Gwent a garem heb fwy o ymgyfraniad gan bobl leol, felly gofynnwn am eich help i ymgysylltu gyda chynifer o bobl ag sydd modd o bob ardal a chefndir; rydym eisiau i bawb gael cyfle i helpu llunio'r Cynllun Llesiant a gwneud Blaenau Gwent yn lle gwell ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

# Yr hyn rydym eisiau i chi wneud

Fel sefydliad, busnes, rhwydwaith neu grŵp ac yn y blaen, byddwch eisoes mewn cysylltiad gyda llawer o bobl o bob rhan o Flaenau Gwent neu'ch cymuned leol. Mae hyn yn golygu eich bod mewn sefyllfa ddelfrydol i'n cefnogi gyda rhaglen ymgysylltu 'Y Blaenau Gwent a Garem' a'n helpu i wella ein hardal.

Gallwch ein cefnogi mewn nifer o ffyrdd, gan dreulio cymaint neu cyn lleied o amser ac ymdrech ag yr hoffech. Efallai y gallech ddosbarthu cardiau post neu gyfeirio pobl at ein gwefan a chyfrifon cyfryngau cymdeithasol, neu gynnal eich ymarferion eich hun wedi'u targedu ar eich cynulleidfa unigol yn casglu barn bobl pa bynnag ffordd sydd orau gennych chi, a nhw. Unwaith y byddwch wedi derbyn adborth, fformatiwch ef yn defnyddio ein cyfarwyddiadau ar dudalen 7 a'i ddychwelyd atom yn electronig neu drwy'r post yn defnyddio ein manylion ar dudalen 8 cyn gynted ag sydd modd, ond cyn **dydd Gwener 8 Medi 2017.**

Hefyd, peidiwch anghofio cymryd rhan eich hunan ac annog eich staff, ffrindiau a pherthnasau i wneud hynny hefyd; cofiwch mai dyma'n cyfle i greu'r Blaenau Gwent a garem i gyd.



# Ein Blaenoriaethau / Amcanion Llesiant

Dyma restr o flaenoriaethau drafft, neu Amcanion Llesiant, y bwriadwn weithio arnynt dros yr ychydig flynyddoedd nesaf er mwyn gwella Blaenau Gwent:

A. Rhoi'r dechrau gorau i blant mewn bywyd
B. Diogelu plant rhag profiadau negyddol (e.e. camddefnyddio sylweddau, cam-drin domestig a thrais rhywiol ac yn y blaen)
C. Creu Blaenau Gwent ddi-fwg
D. Sicrhau pwysau iach ar gyfer plant a theuluoedd
E. Creu cymunedau cryf, cysylltiedig ac ymgysylltiol
F. Creu cymuendau diogel a chyfeillgar
G. Mynd i'r afael ag unigrwydd ac arwahanrwydd
H. Helpu pobl ifanc drwy gyfnodau allweddol addysg
I. Rhoi'r sgiliau i bobl maent eu hangen i gael swyddi
J. Gwella seilwaith a chynyddu cyfleoedd am dwf i'r eithaf
K. Diogelu, cadw a gwella ein hamgylchedd
L. Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd ynni adnewyddadwy
M. Annog mwy o dwristiaeth i'r ardal

# Ein cwestiynau allweddol

Mae 4 cwestiwn allweddol yr hoffem i bobl eu heb ar ôl dewis 1 neu fwy o'n blaenoriaethau sy'n bwysig iddyn nhw:

| | |
|---|---|
| **C1** | Pam ydych chi'n credu fod hyn yn fater o bwys ym Mlaenau Gwent? |
| **C2** | Beth ydych chi'n meddwl sydd angen ei wneud i'n helpu i gyflawni'r flaenoriaeth yma? |
| **C3** | Ydych chi'n gwybod am unrhyw waith sy'n cael ei wneud yn barod i helpu gwneud i hyn ddigwydd? (Meddyliwch am unrhyw ymgyrchoedd, grwpiau, clybiau ac yn y blaen). Hefyd dywedwch wrthym pwy sy'n gwneud y gwaith, os credwch ei fod yn gweithio, ac os yw mewn risg o stopio. |
| **C4** | Ydych chi'n medru cynnig unrhyw gefnogaeth eich hun? Os felly, beth fyddech chi'n medru ei gwneud |

Mae croeso i chi ail-eirio’r cwestiynau i weddu eich cynulleidfa unigol.



# Cwestiynau opsiynol

**Gwybodaeth ddemograffig:** Ar ein holiadur byddwch yn sylwi ein bod wedi ychwanegu rhai cwestiynau demograffig ychwanegol; mae hyn er mwyn i ni fedru bod yn siŵr ein bod wedi cysylltu gyda phob math o bobl a rhoi cyfle i bawb i ddweud eu barn. Os cewch gyfle i gasglu'r wybodaeth yma gan eich cyfranogwyr, bydd hyn yn help mawr i ni; defnyddiwch y cwestiynau o'n holiaduron i wneud hynny os gwelwch yn dda.

**Caniatâd ffotograff:** Yng nghefn y pecyn byddwch hefyd yn gweld ffurflen caniatâd ffotograff. Defnyddiwch y ffurflen hon i gael y caniatâd angenrheidiol os gwelwch yn dda os oes unrhyw rai o'ch ymatebwyr yn hapus i chi dynnu eu lluniau ac i ni ei gyhoeddi ynghyd ag un neu fwy o'n sylwadau.  Bydd hyn yn ein helpu i greu Asesiad Llesiant a gwefan gysylltiedig weledol a diddorol iawn.

**Panel llofnodi Panel Dinasyddion:** Hefyd yng nghefn y pecyn mae Ffurflen Gofrestru Panel Dinasyddion Blaenau Gwent ar gyfer unrhyw ymatebwyr sydd â diddordeb o'n panel dinasyddion newydd. Llenwch y ffurflen gofrestru i gael mwy o wybodaeth os gwelwch yn dda.

# Gwahanol ffyrdd y gall pobl gymryd rhan

Deallwn fod gwahanol bobl yn hoffi cymryd rhan mewn gwahanol ffyrdd, felly rydym yn hapus i bobl gymryd rhan unrhyw ffordd yr hoffant. Disgwyliwn i'r rhan fwyaf o bobl roi adborth ysgrifenedig drwy ein cardiau post neu holiaduron, fodd bynnag efallai y byddai rhai ymatebwyr - yn arbennig ein preswylwyr iau - am dynnu llun o'r broblem, neu ateb, neu ysgrifennu stori neu gerdd. Gall pobl hefyd gymryd rhan drwy ein tudalen Facebook (edrychwch am BGWeWant) a drwy twitter yn defnyddio hashnod #BGWeWant, neu drwy ymweld â'n gwefan: www.blaenaugwentpsb.org.uk






# Sut i fformatio ac anfon adborth

Nid oes angen fformatio holiaduron a chardiau post a gafodd eu llenwi, gallwch eu hanfon atom fel y maent i'r cyfeiriad ar dudalen 8. Ar gyfer unrhyw adborth arall, megis lluniau, cerddi neu sylwadau unigol, y peth allweddol mae angen i ni wybod yw pa flaenoriaeth neu flaenoriaethau y mae'n cyfeirio atynt a pha gwestiwn y mae'n ei ateb; y cyfan sy'n rhaid ei wneud yw ysgrifennu hyn yn ymyl y sylw neu lun/cerdd ac yn y blaen (er enghraifft; Blaenoriaeth A, C2. Neu hyd yn oed BAC2 yn fyr) a'i ddychwelyd atom. Neu i'n helpu ymhellach, gallech greu taenlen neu dabl syml gyda'r penawdau colofn dilynol ...

| Blaenoriaeth | Cwestiwn | Sylwadau | Ymatebydd rhif |
|---|---|---|---|
| *C* | *2* | *Ymgyrchu mewn ysgolion i godi ymwybyddiaeth o broblemau iechyd sy'n gysylltiedig gydag ysmygu* | *1* |
| *C* | *4* | *Hapus i ddosbarthu posteri a thaflenni* | *1* |
| *K* | *2* | *Annog pobl i lanhau yn eu hardaloedd eu hunain* | *2* |

Yn ddelfrydol byddai'n wych pe byddem yn gwybod yn union pa berson a wnaeth pa sylw ond o gofio y gall un person wneud mwy nag un sylw am fwy nag un flaenoriaeth, gall fod yn anodd cadw trac o holl sylwadau un person. Os na allwch wneud hyn, yna anfonwch hefyd syniad o faint o bobl y gwnaethoch ymgysylltu â nhw yn ystod y gweithgaredd fel bod gennym syniad faint o bobl a gymerodd ran i gyd.

**Gofynnir i chi sicrhau yr anfonir yr holl adborth atom erbyn dydd Gwener 8 Medi 2017 fan bellaf.**



# Manylion cyswllt

Anfonwch eich adborth, ymholiadau neu awgrymiadau drwy e-bost at:

*pps@blaenau-gwent.gov.uk*

Neu drwy'r post at:

*Tîm Ymgysylltu,*
*Llawr 4A*
*Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent*
*Canolfan Ddinesig*
*Glynebwy*
*NP23 6XB*

Mae hefyd groeso i chi ein ffonio ar: 01495 355092

# Diolch yn fawr!

Yn olaf, diolch yn fawr iawn i chi am eich cefnogaeth. Gobeithio y byddwch yn mwynhau ymgysylltu â phobl ar yr ymarferiad pwysig iawn yma.




# Templedi

# Enghraifft o gerdyn post

I archebu cardiau post, cysylltwch â ni yn defnyddio ein manylion ar dudalen 8 os gwelwch yn dda.



# #BGaGarem

# Holiadur

Cam 3: Gorffennaf i Medi 2017




Rydym wedi siarad gyda dros 1,500 o bobl ym mhob rhan o Blaenau Gwent i ganfod sut yr hoffent i'r ardal fod yn y dyfodol. Defnyddiwyd eu hadborth i'n helpu i lunio nifer o flaenoriaethau y byddwn yn gweithio arnynt dros yr ychydig flynyddoedd nesaf i'n helpu i greu'r Blaenau Gwent a garem i gyd.

Nawr rydym angen eich help i wneud i hyn ddigwydd! Rydym eisiau i chi ddweud wrthym beth y credwch sydd angen ei wneud ym Mlaenau Gwent i gyflawni ein blaenoriaethau, ac os gwyddoch am unrhyw waith da sydd eisoes yn digwydd.

**Gofynnir i chi sicrhau eich bod yn llenwi a phostio'r holiadur yma erbyn dydd Mercher 6 Medi 2017.**

BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS
Blaenau Gwent
PUBLIC SERVICES BOARD

#BGaGarem

# Mae rhestr o'n blaenoriaethau islaw; Dewiswch pa rai yr hoffech roi sylwadau arnynt:

A. Rhoi'r dechrau gorau i blant mewn bywyd

B. Diogelu plant rhag profiadau negyddol (e.e. camddefnyddio sylweddau, cam-drin domestig a thrais rhywiol ac yn y blaen)

C. Creu Blaenau Gwent ddi-fwg

D. Sicrhau pwysau iach ar gyfer plant a theuluoedd

E. Creu cymunedau cryf, cysylltiedig ac ymgysylltiol

F. Creu cymuendau diogel a chyfeillgar

G. Mynd i'r afael ag unigrwydd ac arwahanrwydd

H. Helpu pobl ifanc drwy gyfnodau allweddol addysg

I. Rhoi'r sgiliau i bobl maent eu hangen i gael swyddi

J. Gwella seilwaith a chynyddu cyfleoedd am dwf i'r eithaf

K. Diogelu, cadw a gwella ein hamgylchedd

L. Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd ynni adnewyddadwy

M. Annog mwy o dwristiaeth i'r ardal

**Ar y 3 tudalen nesaf gallwch ein helpu i gyflawni hyd at 3 o'r blaenoriaethau hyn. Defnyddiwch holiadur ychwanegol os gwelwch yn dda os hoffech ein helpu gyda mwy na 3.**

## **Gyda pha flaenoriaeth yr hoffech ein helpu** (rhowch gylch):

A B C D E F G H I J K L M

**Pam ydych chi'n credu y dylai hyn fod yn flaenoriaeth i Flaenau Gwent?**

**Beth ydych chi'n credu sydd angen ei wneud i helpu cyflawni'r flaenoriaeth yma?**

**Ydych chi'n gwybod am unrhyw waith sy'n cael ei wneud eisoes i helpu gwneud i hyn ddigwydd? (Meddyliwch am unrhyw ymgyrchoedd, grwpiau, clybiau ac yn y blaen). Dywedwch wrthym hefyd pwy sy'n gwneud y gwaith, os credwch ei fod yn gweithio, ac os yw mewn risg o ddod i ben.**

## **Gyda pha flaenoriaeth yr hoffech ein helpu** (rhowch gylch):

A B C D E F G H I J K L M

**Pam ydych chi'n credu y dylai hyn fod yn flaenoriaeth i Flaenau Gwent?**

**Beth ydych chi'n credu sydd angen ei wneud i helpu cyflawni'r flaenoriaeth yma?**

**Ydych chi'n gwybod am unrhyw waith sy'n cael ei wneud eisoes i helpu gwneud i hyn ddigwydd? (Meddyliwch am unrhyw ymgyrchoedd, grwpiau, clybiau ac yn y blaen). Dywedwch wrthym hefyd pwy sy'n gwneud y gwaith, os credwch ei fod yn gweithio, ac os yw mewn risg o ddod i ben.**

## Gyda pha flaenoriaeth yr hoffech ein helpu (rhowch gylch):

A B C D E F G H I J K L M

**Pam ydych chi'n credu y dylai hyn fod yn flaenoriaeth i Flaenau Gwent?**

**Beth ydych chi'n credu sydd angen ei wneud i helpu cyflawni'r flaenoriaeth yma?**

**Ydych chi'n gwybod am unrhyw waith sy'n cael ei wneud eisoes i helpu gwneud i hyn ddigwydd? (Meddyliwch am unrhyw ymgyrchoedd, grwpiau, clybiau ac yn y blaen). Dywedwch wrthym hefyd pwy sy'n gwneud y gwaith, os credwch ei fod yn gweithio, ac os yw mewn risg o ddod i ben.**

# Daliwch i gymryd rhan os gwelwch yn dda:

**Fyddai gennych chi ddiddordeb yn ein helpu i wneud gwahaniaeth tuag at unrhyw un o'r blaenoriaethau yr ydych wedi rhoi sylwadau arnynt? A allwch gynnig unrhyw gefnogaeth eich hun? Os felly, beth fyddech chi'n gallu ei wneud?**

**Os gallwch chi helpu, gadewch eich manylion cyswllt:**

# Amdanat ti:

Hoffem wybod ychydig mwy amdanoch chi, a gofynnwn i chi roi ychydig o amser i lenwi'r cwestiynau islaw. Mae'r cwestiynau yn ddewisol a bydd unrhyw wybodaeth a roddir yn parhau'n gyfrinachol. Efallai y byddwch yn dymuno ateb un neu rai o'r cwestiynau islaw.

**Ydych chi yn:**

☐ Preswylydd
☐ Cynrychioli busnes lleol
☐ Cynrychioli gwasanaeth cyhoeddus
☐ Cynrychioli grŵp, clwb neu gymdeithas lleol
☐ Cynrychioli sefydliad sector gwirfoddol
☐ Cynrychioli cyngor tref/cymuned
☐ Gweithio mewn sefydliad gwasanaeth cyhoeddus
☐ Arall
☐ Dewis peidio dweud

**Ydych chi yn:**

☐ Gwryw
☐ Benyw
☐ Dewis peidio dweud

**Pa iaith ydych chi'n ei hystyried yn iaith gyntaf I chi?**

☐ Saesneg
☐ Cymraeg
☐ Arall

**Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn diffinio person fel bod ag anabledd os oes ganddo ef neu hi 'amhariad corfforol neu feddyliol sydd yn cael effaith sylweddol a hirdymor ar eu gallu i wneud gweithgareddau arferol dydd i ddydd'. Oes gennych chi anabledd o'r fath?**

☐ Oes ☐ Na ☐ Dewis peidio dweud

**Ym mha un o'r grwpiau oedran dilynol ydych chi?**

☐ Dan 16
☐ 16 i 24
☐ 25 i 34
☐ 35 i 44
☐ 45 i 54
☐ 55 i 64
☐ 65 i 74
☐ 75 a throsodd
☐ Dewis peidio dweud

**Ym mha un o'r ardaloedd bras hyn ym Mlaenau Gwent ydych chi'n byw?**

☐ Abertyleri
☐ Brynmawr
☐ Glynebwy
☐ Nantyglo a Blaenau
☐ Tredegar
☐ Rwy'n byw tu allan I Flaenau Gwent
☐ Dewis peidio dweud

**Pa un o'r rhain yw'r disgrifiad gorau o'ch hunaniaeth ethnig?**

☐ Gwyn
☐ Cefndir cymysg
☐ Du neu Du Prydeinig
☐ Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig
☐ Tsieineaidd
☐ Arall
☐ Dewis peidio dweud

## Diolch i chi am roi'r amser i lenwi'r holiadur yma. Defnyddir eich adborth i helpu gwneud Blaenau Gwent yn lle gwell ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Ar ôl ei lenwi, dychwelwch yr holiadur yn yr amlen bost a roddwyd i:

Adran Polisi ac Ymchwil
Cyngor Blaenau Gwent
Swyddfeydd Bwrdeisiol
Canolfan Ddinesig
Glynebwy
NP23 6XB

Mae'r holiadur hwn hefyd ar gael ar-lein ac yn Saesneg. Ewch i www.blaenaugwentpsb.org.uk i gymryd rhan ar-lein os gwelwch yn dda. Ar gyfer ymholiadau pellach, neu i ofyn am gopi papur neu gopi Saesneg, anfonwch e-bost atom yn . pps@blaenau-gwent.gov.uk neu ffonio 01495 355092.

# Ffurflen caniatâd ffotograff

I gydymffurfio gyda Deddf Diogelu Data y Deyrnas Unedig, mae angen eich caniatâd cyn y gallwn ddefnyddio delwedd neu unrhyw debygrwydd agos i chi neu'ch plentyn. Ni chaiff unrhyw ddelwedd neu debygrwydd eu defnyddio heb eich caniatâd. Os rhoddwch ganiatâd, gallwch ei ddileu ar unrhyw amser drwy gysylltu â ni yn defnyddio'r manylion ar waelod y ffurflen hon.

Rhoddaf ganiatâd i ddefnyddio fy nhebygrwydd i/fy mhlentyn a sylwadau yng nghyswllt Rhaglen Ymgysylltu Y Blaenau Gwent a Garem ar gyfer dibenion cyhoeddiadau mewnol ac allanol, cylchlythyrau, cyflwyniadau  Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Blaenau Gwent a gwefan a chyfrifon cyfryngau cymdeithasol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys, ond nid yw wedi'i gyfyngu i, gyhoeddiadau yn ymwneud â Rhaglen Ymgysylltu Y Blaenau Gwent a Garem.

| | |
|---|---|
| **Eich enw chi/<br>enw eich plentyn:** | |
| **Enw rhiant/gwarcheidwad<br>(os yn berthnasol)** | |
| **Eich llofnod chi/<br>llofnod<br>rhiant/gwarcheidwad** | |
| **Dyddiad:** | |

**Manylion cyswllt:** Tîm Ymgysylltu, Llawr 4A, Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, Y Ganolfan Ddinesig, Glynebwy,  NP23 6XB. Ffôn: 01495 355092.
E-bost: pps@blaenau-gwent.gov.uk

#BGaGarem

BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS
Blaenau Gwent
PUBLIC SERVICES BOARD

# Ymunwch â'n Panel Dinasyddion a dweud eich barn ar y materion sy'n bwysig i chi

BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS
Blaenau Gwent
PUBLIC SERVICES BOARD

Fel aelod o'n Panel Dinasyddion newydd byddwch yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf ar y gweithgareddau a digwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd a gynhelir gennym ni a'n partneriaid megis yr Heddlu, Bwrdd Iechyd Lleol, y Gwasanaeth Tân a mudiadau gwirfoddol. Cewch hefyd eich gwahodd i roi eich barn ar wasanaethau newydd a'r gwasanaethau presennol, gan helpu i lunio a gwella'r gwasanaethau yr ydych chi a'ch cymuned yn eu gwerthfawrogi. Nid yw'n rhaid i chi fynychu unrhyw gyfarfodydd neu ddigwyddiadau, gan y gallech gymryd rhan ar-lein neu drwy arolwg post.

**Ymunwch â'r panel drwy gwblhau'r wybodaeth ddilynol:**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Enw:** | | **Ffôn:** | |
| **E-bost:** | | **Cod Post:** | |
| **Cyfeiriad:** | | | |

**Sut fyddai orau gennych dderbyn gwybodaeth gennym ni?**

| | |
|---|---|
| ☐ E-bost | ☐ Post |

**Ym mha un o'r bandiau oedran yma ydych chi?**

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ☐ 11 - 16 | ☐ 16 - 24 | ☐ 25 - 34 | ☐ 35 - 44 | ☐ 45 - 54 | ☐ 55 - 64 | ☐ 65 to 74 | ☐ 75+ |

**Ydych chi'n:**

| | | | |
|---|---|---|---|
| ☐ Gwryw | ☐ Benyw | ☐ Trawsrywiol | ☐ Dewis peidio dweud |

**Ym mha ardal o Flaenau Gwent ydych chi'n byw neu'n agosaf ati?**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| ☐ Abertyleri | ☐ Brynmawr | ☐ Glynebwy | ☐ Nantyglo | ☐ Tredegar | ☐ Tu allan BG |

**Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn diffinio person fel bod ag anabledd os oes ganddo/ganddi 'nam corfforol neu feddyliiol sy'n cael effaith niweidiol sylweddol a hirdymor ar ei allu/gallu i wneud gweithgareddau arferol dydd i ddydd'. Oes gennych chi anabledd o'r fath?**

| | | |
|---|---|---|
| ☐ Oes | ☐ Na | ☐ Dewis peidio dweud |

| **Pa un o'r dilynol yw'r disgrifiad gorau o'ch gallu yn y Gymraeg?** | |
|---|---|
| ☐ Rwy'n rhugl yn y Gymraeg | ☐ Gallaf siarad cryn dipyn o Gymraeg |
| ☐ Rwy'n rhugl yn y Gymraeg | ☐ Gallaf siarad cryn dipyn o Gymraeg |
| ☐ Ni allaf siarad Cymraeg | |

| **Beth yw eich iaith dewis cyntaf?** | |
|---|---|
| ☐ Saesneg | ☐ Cymraeg |

| **Ym mha iaith fyddai orau gennych dderbyn gohebiaeth yn y dyfodol?** | |
|---|---|
| ☐ Saesneg | ☐ Cymraeg |

| **Ym mha un/rai o'r categoriau dilynol mae gennych fwyaf o ddiddordeb ynddynt?** | | | |
|---|---|---|---|
| ☐ Popeth | ☐ Lluoedd Arfog | ☐ Plant a Phobl Ifanc | ☐ Tai |
| ☐ Diogelwch y gymuned | ☐ Addysg | ☐ Cyflogaeth ac adfywio | ☐ Amgylchedd a gwastraff |
| ☐ Iechyd a gofal cymdeithasol | ☐ Materion cymunedol h.y. cynllunio, trafnidiaeth | ☐ Hamdden a'r celfyddydau | ☐ Pobl hŷn |
| ☐ Pobl gydag anableddau | | | |

**Ar ôl ei llenwi, dychwelwch y ffurflen i:**
Tîm Ymgysylltu
Polisi ac Ymchwil
Llawr 4A
Swyddfeydd Bwrdeisiol
Canolfan Ddinesig
Glynebwy
NP23 6XB

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am ein panel newydd, cysylltwch os gwelwch yn dda â'r Tîm Ymgysylltu yng Nghyngor Bwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent ar 01495 355092.

Diolch.

Mae’r Cyngor yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg a byddwn yn cyfathrebu gyda chi yn eich dewis iaith, dim ond i chi rhoi gwybod i ni pa un sydd well gennych. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn creu unrhyw oedi.

The Council welcomes correspondence in Welsh and English and we will communicate with you in the language of your choice, as long as you let us know which you prefer. Corresponding in Welsh will not lead to any delay.